



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



NORTH WALES
SOCIAL
SERVICES
IMPROVEMENT
COLLABORATIVE

CYDWEITHREDFA
GWELLA
GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL
GOGLEDD CYMRU

Cronfa Cydweithio Rhanbarthol: Prosiect Dementia Gogledd Cymru

Ysbrydoli Gweithredu:

Gwella canlyniadau i bobl a dementia a'u gofalwyr yng Ngogledd Cymru.

Datganiad Comisiynu Dementia Gogledd Cymru

Datganiad Comisiynu Dementia Gogledd Cymru

Mae'r Datganiad Comisiynu hwn yn symbol o ysgogiad a phenderfyniad y rhanbarth i ddarparu gwybodaeth werthfawr i Ddarparwyr gwasanaeth ac i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr ar draws Gogledd Cymru.

Mae gwasanaethau sy'n llwyddo ac sy'n cael eu gwerthfawrogi yn diwallu anghenion yr unigolyn drwy gydweithio a thrwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a sectorau eraill.

Mae polisïau Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw at y ffaith mai dyfodol gwasanaethau yng Nghymru yw dyfodol lle bydd y Sector Cymunedol / Gwirfoddol ac Annibynnol yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu gwasanaethau a lle bydd gan Awdurdodau Lleol rôl alluogol o ran llunio darpariaeth gwasanaeth.

Dylid darllen y Datganiad Comisiynu hwn yn ei gyd-destun. Mae gan bob un o'r chwe Awdurdod Lleol ar draws y rhanbarth, Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, Strategaeth neu Gynllun Comisiynu sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn a gwasanaethau i'r bobl hynny sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Mae'r rhain yn darparu'r wybodaeth allweddol y meddwn arni ynglŷn ag anghenion presennol ac anghenion y dyfodol, syniadau am sut y bydd y galw am wasanaethau yn newid a sut y gellir ei bodloni'r galw hwnnw yn y dyfodol. O fewn y strategaethau / cynlluniau hyn mae dolenni at ffynonellau gwybodaeth manylach y gellir eu gweld ar wefan yr Awdurdod Lleol sy'n cael eu diweddarau i adlewyrchu gwybodaeth a bwriadau cyfredol.

Gobeithiwn y bydd y Datganiad Comisiynu hwn yn ddefnyddiol i chi ac y byddwch yn rhoi eich barn i ni amdano. Darperir manylion ynglŷn â phwy y dylid cysylltu â nhw.

Crëwyd fel rhan o Ysbrydoli Gweithredu, Cronfa Cydweithio Rhanbarthol, Prosiect Dementia Gogledd Cymru, dan arweiniad Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru.

Beth yw hyn?

Targedir y Datganiad Comisiynu at Ddarparwyr o bob sector sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr.

Mae'r Datganiad Comisiynu yn crynhoi'r sefyllfa o ran y galw, y ddarpariaeth a'r bwriadau er mwyn helpu i gefnogi darparwyr presennol a darpar ddarparwyr i ddatblygu gwasanaeth priodol i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr ar draws y rhanbarth.

Pam bod hyn yn ddefnyddiol i mi?

Mae'n annog creadigrwydd, arloesedd a rhannu'r arferion gorau.

Mae'n cefnogi gwell perthynas rhwng comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth.

Mae'n creu sylfaen ar gyfer gwella.

Dolenni i Strategaethau a Chynlluniau Comisiynu Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru.

Ynys Môn: <http://www.ynysmon.gov.uk/searchresults?qsearch=1&qkeyword=comisiynu>

Gwynedd: https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Trigolion/Canlyniadau-Chwilio.aspx?search_keywords=comisiynu

Conwy: <http://search.conwy.gov.uk/search.aspx?pckid=22&aid=368692&pt=6018936&sw=comisiynu&Submit=Search>

Sir Ddinbych: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/chwilio/chwilio.aspx?search=comisiynu>

Sir y Fflint: http://www.siryyfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-Apps/Search.aspx?search_keywords=comisiynu

Wrecsam: http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/social_services/older_people_w.htm

Dyma'r hyn y mae arnom ei **Eisiau** a'i **Angen** ar gyfer pobl sy'n byw â Dementia a'u Gofalwyr yng Ngogledd Cymru

Personoli:

Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd yn rhoi pwys ar Barch, Empathi ac Urddas. **Tudalen 6**

Cynnig Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg i alluogi pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr i gael mynediad at y gwasanaeth y mae arnynt ei angen yn yr iaith o'u dewis drwy gydol siwrnai dementia.

Page 10

Ymyrraeth, Atal ac Ailalluogi yn Gynnar er mwyn darparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr, er enghraifft, dementia cynnar, anableddau dysgu, namau ar y synhwyrau, anghenion ethnig a diwylliannol.

Tudalen 11

Lles a Chomisiynu ar Sail Canlyniadau Mae angen i ddarparwyr ddangos sut mae eu gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd a lles pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn ogystal â bodoli canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys arbedion a buddion costau.

Tudalen 12

Ychwanegu Gwerth drwy gysylltu â grwpiau, cyfleusterau a gwirfoddolwyr cymunedol presennol i ychwanegu gwerth at y gwasanaeth.

Tudalen 13

Darpariaeth gwasanaethau ar y cyd rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol i ddarparu gwasanaeth cyfannol sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolion sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Symud oddi wrth wasanaeth un dimensiwn. Meddwl yn greadigol ynghylch gweithio ar y cyd.

Tudalen 14

DEMENTIA GOGLEDD CYMRU

Yn unol â Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Dementia (Llywodraeth Cymru, 2011):

Mae arnom eisiau pwysleisio pedwar maes blaenoriaeth i'w gwella:

1. Gwell darpariaeth gwasanaeth trwy gydweithio'n well rhwng lechyd, Gofal Cymdeithasol, y Sector Gwirfoddol ac asiantaethau eraill.
2. Gwella diagnosis cynnar ac ymyraethau amserol.
3. Gwell mynediad at well gwybodaeth a chymorth i bobl â dementia a'u gofalwyr, gan gynnwys rhagor o ymwybyddiaeth o'r angen am eiriolaeth.
4. Gwella'r hyfforddiant i'r rhai hynny sy'n darparu gofal, gan gynnwys ymchwil.

Beth sydd ei eisiau a'i angen arnom yng Ngogledd Cymru ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr?

Mae Gwasanaethau'n hyblyg i ddiwallu anghenion sy'n newid.

Caiff gofalwyr eu cydnabod fel partneriaid allweddol wrth gynllunio gofal.

Cynnig gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg drwy gydol y siwrnai dementia.

Mae ein gwasanaethau yn cynnwys technoleg er mwyn cyflawni gwerth ychwanegol.

Caiff pobl ddiagnosis cynnar.

Gweithlu gwybodus, galluog a thosturiol

Parch
Empathi
Urddas

Mae ein gwasanaethau yn integreiddio gwaith partneriaethol a chymunedol.

Mae gan ein gwasanaethau wybodaeth well ynglŷn â dementia.

Gwybodaeth a chyngor dibynadwy.

Mae ein gwasanaethau yn canolbwyntio ar fod wedi eu personoli.

Gwell cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

Dementia yn Rhanbarth Gogledd Cymru

(Mae ystadegau mwy penodol ar gael ar dudalen 5)

- Mae Gogledd Cymru yn gartref i 680,642 o bobl, sy'n cyfateb i 22.7% o gyfanswm poblogaeth Cymru (Sefydliad Materion Cymreig 2010). Mae'r disgwyliad oes yng Ngogledd Cymru yn unol â chyfartaledd Cymru ar gyfer dynion (78 oed) ac ar gyfer menywod (84 oed). Gofelir am fwyafrif y bobl â dementia (78.8%) yn y cartref gan berthynas neu ffrind ac mae oedran cyfartalog gofalwr teuluol rhwng 60 a 65 oed.
- Mae gan Gogledd Cymru gyfran uwch o bobl 55 oed a throsodd yn y boblogaeth o gymharu â Chymru gyfan (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2013).
- Amcangyfrifir bod 2.7% o boblogaeth Gogledd Cymru dros 85 oed, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o 2.5% ar draws Cymru, a disgwylir i nifer y bobl yn y grŵp oedran hwn ddyblu erbyn 2033 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2011, Llywodraeth Cymru, 2014). Erbyn 2015, bydd yn 850,000 o bobl â dementia yn y Deyrnas Unedig a gofelir am 670,000 ohonynt gan ofalwyr di-dâl (h.y. ffrind, aelod o'r teulu, cymdogion).
- Mae gan y rhanbarth hunaniaeth unigryw sy'n seiliedig ar y Gymraeg ac ar ddiwylliant Cymru.
- Mae canran y boblogaeth sydd yn dair oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg yn is na chyfartaledd Cymru yn Sir y Fflint a Wrecsam, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Ynys Môn a Gwynedd.
- Mae gan siroedd Gwynedd ac Ynys Môn grynodiad uwch o siaradwyr Cymraeg o gymharu â phob sir arall yng Nghymru (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2011, Llywodraeth Cymru 2014).
- Mae datblygu gwasanaethau cydweithredol, integredig sydd wedi eu lleoli yn y gymuned ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn flaenoriaeth ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.
- Mae cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd) sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 a throsodd, yn is na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r 6 sir yng Ngogledd Cymru, fodd bynnag mae gan Wrecsam a Sir y Fflint gyfradd uwch o bobl hŷn sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned na'r pedair sir arall (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2011, Llywodraeth Cymru, 2014).

Yng Nghymru amcangyfrifir bod tua 45,000 o bobl â dementia (Cymdeithas Alzheimer 2014); fodd bynnag, mae'n debygol fod y ffigur hwnnw yn danamcangyfrif o wasgariad gwirioneddol y cyflwr.

- [Dim ond 44% o'r bobl â Dementia yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cael diagnosis.](#) Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn amcangyfrif bod llai na 40% o'r bobl â dementia yng Nghymru yn cael diagnosis ffurfiol (sy'n cyfateb i fwy na 27,868 o bobl heb gael diagnosis ar draws Cymru, sef y gyfradd genedlaethol isaf o ddiagnosis yn y Deyrnas Unedig) (Y Gymdeithas Alzheimer 2013). Mae'r Gymdeithas Alzheimer (2013) wedi galw ar gyrff iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru i osod dementia yn flaenoriaeth leol, i weithio tuag at greu cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia, ac i rannu arferion gorau.


<https://www.carers.org/help-directory/alzheimers-and-dementia>

<http://www.alzheimers.org.uk/statistics>

- Rhagwelir y bydd nifer y bobl â dementia yng Nghymru yn cynyddu gan 31% erbyn 2021, a chan gymaint â 44% mewn rhai ardaloedd gwledig (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2011).

Dementia yn Rhanbarth Gogledd Cymru

Yn 2013, amcangyfrifodd y Gymdeithas Alzheimer bod 10,727 o bobl wedi cael diagnosis i ddweud fod arnynt ddementia yn rhanbarth Gogledd Cymru. Yn y siart bar isod darperir y ffigyrau sydd wedi eu hamcangyfrif ar gyfer pob awdurdod lleol:



Beth yw'r ystyriaethau pwysig sy'n benodol i ddarparu cymorth i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yng Ngogledd Cymru?

Mae angen inni ddiwallu anghenion pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr mewn ardaloedd gwledig.

Mae angen inni ddiwallu anghenion pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr â'r Gymraeg yn famiaith iddynt.

Mae gennym gyfran uwch o bobl 55 oed a throsodd o gymharu â Chymru gyfan a'r lefelau uchaf o amddifadedd cymdeithasol yn rhai rhannau o'r rhanbarth.

Gofalu am Unigolion sy'n byw â Dementia a'u Gofalwyr Beth sydd arnom ei angen?

Mae arnom angen:
Personoli:
Dyma'r llwybr i gyflawni
canlyniadau gwell

Sut mae
gwneud hynny?



Drwy ddarparu
system gymorth.

Mae angen cefnogi
ymagwedd teulu
cyfan.



Drwy ymateb i
anghenion unigolion
sy'n byw â dementia
a'u gofalwyr

Enghraifft: Cymuned Sy'n Gefnogol i Dementia Abertawe:
<http://www.dementiafriendlyswansea.org/>



Drwy symud oddi wrth
ddarparu gwasanaeth yn
y modd traddodiadol.

Cysylltwch â Siân Fitzgerald, Swyddog Datblygu
Celfyddydau Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych
am ragor o wybodaeth:
sian.fitzgerald@denbighshire.gov.uk

Enghraifft: Sain Sir y Fflint: <http://www.carers.org/local-service/34979/news/flintshire-sounds>

Enghraifft: Dawns a Dementia: cysylltwch â Dawns i
Bawb: <http://www.netmums.com/nw-wales/local/view/after-school-activities/dance/dawns-i-bawb>



Drwy symud tuag at fodel sy'n hyrwyddo ac yn annog gofal hyblyg wedi ei bersonoli.

Sut? Drwy ganolbwyntio ar Ganlyniadau Unigol.

Enghraifft: Gofal Croesffyrdd yn y Fro (Henoed Eiddil eu Meddwl): <http://www.crossroads-vale.org.uk/about-us/welcome-to-crossroads/>

Enghraifft: Age Cymru Gwynedd a Môn Gwasanaeth Eistedd <http://www.aceuk.org.uk/cvmru/awvneddamon/Search/?keyword=sitting+service>

Cefais ddiagnosis cynnar.

Rydw i'n deall, felly rydw i'n gwneud penderfyniadau da ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Fel gofalwr mae arnaf eisiau teimlo fy mod yn cael fy nghynnwys a bod fy nghyfraniad yn cael ei werthfawrogi.

Rydw i'n cael y driniaeth a'r cymorth sydd orau ar gyfer fy nementia, a'm bywyd.

Caf fy nhrin â
Pharch
Empathi
ac **U**rddas.

Mae'r bobl o'm cwmpas yn gofalu'n dda amdanaf.

Teimlaf fy mod yn rhan o gymuned a chaf fy ysbrydoli i gynnig rhywbeth yn ôl.

Gallaf fwynhau bywyd.

Gwn beth y gallaf ei wneud i fy helpu fy hun a phwy arall a all fy helpu.

Yr wyf yn ffyddiog y perchir fy nymuniad ar gyfer diwedd fy oes. Gallaf ddisgwyl marwolaeth dda.

GYDA'N GILYDD BYDDWN YN LLWYDDO

Enghraifft: Prosiect Dementia Sir Gaerfyrddin

<http://newyddion.sirgar.gov.uk/archif-newyddion/2014/02/pontyberem-becomes-a-dementia-friendly-community/#.VbYOuU0tDiw>

Enghraifft: Rhaglen Gomisiynu Sir Ddinbych: e-bost

Bethan.wyn.roberts@denbighshire.gov.uk

A Road Less Rocky - Supporting Carers of People with Dementia

https://www.carers.org/sites/default/files/dementia_executive_summary_english_only_final_use_this_one.pdf



Drwy ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth a meithrin cyd-gynhyrchu i helpu gwella cydweithrediad a chyfathrebu

Fel gofalwr, dw i eisiau bod fy arbenigedd a'm profiad yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi.

Drwy leihau dibyniaeth a thrwy gefnogi pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr i aros yn eu cartrefi / cymunedau eu hunain am gyfnod hwy.

Enghraifft: Gofal yn y Cartref yn Rhaglan yn y Sir Fynwy Wledig:

<http://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2014/05/Raglan-Project-Summary-short-version.pdf>

Enghraifft: Gofal yn Nes at Gartref: Timau Adnoddau Cymunedol Integredig yn Sir Benfro:

<http://www.kingsfund.org.uk/audio-video/care-co-ordination-demonstrator-site-pembrokeshire-%E2%80%93-community-care-closer-home>

Dementia RED™

Respect ■ Parch
Empathy ■ Empathi
Dignity ■ Urddas



I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â Dementia RED cysylltwch â Chymdeithas Alzheimer Gogledd Cymru: Rheolwr Dementia RED: Emma Gough, emma.gough@alzheimers.org.uk

Drwy helpu pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr i'w helpu eu hunain o ran cael gafael ar wasanaethau cymorth cymunedol priodol ac amserol.

Enghraifft: Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru:

<http://www.carers.org/local-service/flintshire>

Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Gogledd Cymru

Personoli

Er mwyn llunio gwasanaeth, mae angen i'r Darparwr ddechrau gyda'r person sy'n byw â dementia a'u gofalwyr.

Mae angen i'r Darparwr ystyried y person fel unigolyn â chryfderau, dymuniadau a dyheadau. Mae arnom eisiau i'r Darparwr osod yr unigolyn yng nghanol y broses o ddynodi eu hanghenion a gwneud dewisiadau ynglŷn â sut a phryd y maent yn cael eu cefnogi i fyw eu bywydau.

Dylai'r Darparwr fynd i'r afael ag anghenion a dyheadau cymunedau cyfan i helpu i feithrin Cymunedau sy'n Gefnogol i Dementia, gan sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr wybodaeth, y cyngor a'r eiriolaeth gywir er mwyn gwneud penderfyniadau da ynglŷn â'r cymorth sydd ei angen.

Mae angen i Ddarparwyr sicrhau bod gan bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr ddewis ehangach o ran sut y caiff eu hanghenion eu diwallu ac o ran eu mynediad at wasanaethau cyffredinol megis cludiant, hamdden, iechyd, addysg a thai ni waeth beth fo'u hoedran a'u gallu.

Enghraifft o wasanaeth sy'n canolbwyntio ar Personoli:

Celfyddydau Sir Ddinbych: <https://denbarts.wordpress.com/2014/11/18/lost-in-art-10/>

Mae'r grŵp Ymgolli mewn Celf wedi bod yn darparu prosiect celfyddydau gweledol i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr teuluol yng Nghanolfan Grefft Rhuthun ers 2010. Caiff y prosiect ei ddarparu gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r grŵp yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau ym maes celfyddydau creadigol, sydd wedi eu hysgogi gan amgylchedd creadigol a chan eu syniadau creadigol a'u diddordebau eu hunain. Caiff y prosiect ei gydnabod gan lawer fel model o arfer da o ran cefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr, gan ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar personoli, gan ddarparu lleoliad ar gyfer mwynhau creadigrwydd, hunan-fynegiant, ymgysylltiad a chymdeithasu drwy wneud gweithgarwch ystyrlon.

Cynnig Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg

“Mae bod yn sensitif i anghenion y claf yn hollbwysig wrth ddarparu gofal dementia. Nid mater o ddewis neu ddymuniad yw iaith yn yr achos hwn, ond angen clinigol gwirioneddol” (Huws, 2013). Huws, M. 2013.

Cyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i ofal Dementia. [Ar-lein]. Ar gael yn

<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/cymraeg/newyddion/Pages/Cyfathrebu-yn-Gymraeg-yn-hanfodol-i-ofal-dementia.aspx> [Cyrchwyd ddiwethaf 22 / 07 / 2015].

Gall dementia beri bod person yn troi'n ôl at ddefnyddio eu hiaith gyntaf. I lawer o siaradwr Cymraeg, mae'n hanfodol edrych ar eu gallu i ddefnyddio eu hiaith eu hunain fel elfen greiddiol o ofal, yn hytrach nag fel rhywbeth dewisol. Cyfrifoldeb y Darparwr gwasanaeth yw bodloni'r anghenion gofal hyn. Mae disgwyliad fod darparwyr o bob sector yn prif-frydio gwasanaethau Cymraeg fel elfen annatod o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae angen diwallu anghenion y bobl hynny sy'n byw â dementia a'u gofalwyr mewn ardaloedd gwledig a'r bobl hynny y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Dim ond trwy siarad Cymraeg y gall rhai pobl fynegi eu hanghenion am ofal yn effeithiol. Mae arnom eisiau i Ddarparwyr fedru cynnig gwasanaeth dwyieithog er mwyn galluogi pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr i gael mynediad at y gwasanaeth y mae arnynt ei angen yn yr iaith o'u dewis drwy gydol siwrnai dementia.

Mae gan Ogledd Cymru hunaniaeth unigryw sy'n seiliedig ar y Gymraeg ac ar ddiwylliant Cymru. Mae gan siroedd Gwynedd ac Ynys Môn grynodiad uwch o siaradwyr Cymraeg o gymharu â phob sir arall yng Nghymru (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2011, Llywodraeth Cymru 2014). Mae ystyriaethau pwysig sy'n benodol o ran darparu cymorth i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yng Ngogledd Cymru. Ceir cyfran uwch o bobl 55 oed a throsodd yn y rhanbarth o gymharu â Chymru gyfan a lefelau uwch o amddifadedd cymdeithasol mewn rhai rhannau o'r rhanbarth (Llywodraeth Cymru 2011, Iechyd Cyhoeddus Cymru 2013). Mae Llywodraeth Cymru yn datgan y dylid rhoi cynnig gweithredol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg i bobl sy'n byw â dementia. Gallai cleifion dementia Cymraeg eu hiaith ar draws y rhanbarth ei chael yn anodd oherwydd y diffyg darpariaeth Gymraeg. Mae'n bwysig bod staff (cyflogedig a di-gyflog) sy'n gweithio yn y sectorau a'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws rhanbarth Gogledd Cymru yn cydnabod mai dim ond drwy eu hiaith gyntaf - y Gymraeg, y gall rhai pobl gyfathrebu eu hanghenion yn effeithiol (Wyn Roberts, 2014-2017, tt. 2-3). Mae arnom eisiau i'r Darparwr ystyried y canlynol wrth lunio cynllun eu gwasanaeth:

- **Darperir gwasanaethau yn iaith y defnyddiwr gwasanaeth a'i deulu.**
- **Gwneir cofnod o'r dewis iaith.**
- **Mae llenyddiaeth a gwybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog.**
- **Mae arwyddion a hysbysebion yn ddwyieithog.**
- **Mae trefniadau cyfieithu yn eu lle. (Cyngor Sir Gwynedd, Gwasanaethau'r Pwyllgorau Craffu, 2014, t. 9).**

Enghraifft o wasanaeth sy'n rhoi cynnig gweithredol ar gyfer darpariaeth Gymraeg:

Allgymorth y Waen: <http://www.capelywaen.btck.co.uk/CanolfanDyddiaGofalCymunedol> Yn rhanbarth Gogledd Cymru mae sefydliadau a grwpiau cymunedol yn y Sector Gwirfoddol yn darparu lluo o wasanaethau cymunedol dwyieithog sy'n darparu cymorth i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Yn dilyn archwiliad o angen cymunedol ac ymgynghori'n eang â grwpiau lleol, a chofnodi profiadau personol pobl hyn o fewn y gymuned hon, sy'n wledig ei natur, roedd yn amlwg fod angen mynediad at gymorth gofal dydd dwyieithog priodol. Roedd angen amlwg i ofal gael ei ddarparu'n ddwyieithog ar gyfer pobl hyn ac yn enwedig ar gyfer pobl â phroblemau gwybyddol / dementia. Datblygwyd model gwasanaeth gan Allgymorth y Waen, grŵp sy'n cael ei redeg yn llwyr gan wirfoddolwyr a leolir yn y Waen, Llanelwy, Sir Ddinbych. Mae lefel y gofal yn seiliedig ar egwyddorion gofal dydd Hosbis. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau dyddiol gan gynnwys ymarferion cadair, celf a chrefft, coginio, garddio, asesiad ffisiotherapi, hel atgofion ac ysgrifennu creadigol ymhlith pethau eraill. Bydd pawb sy'n mynychu wedi cael ymweliad anffurfiol yn cartref cyn mynychu er mwyn sicrhau y bydd y gwirfoddolwyr yn gallu cefnogi eu hanghenion. Mae'r gwasanaeth ar agor 45 wythnos y flwyddyn ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a grwpiau cymunedol eraill yn y Sector Gwirfoddol. Mae'r costau cyfredol ar gyfer darparu gofal dydd wythnosol tua £9,000 y flwyddyn. Mae'r model gwasanaeth hwn yn ddiweddar wedi derbyn rhywfaint o arian o'r sector statudol ond mae'r gwasanaeth yn dueddol o gwrdd â'r rhan fwyaf o'r costau ei hun gan gynnwys y weithgareddau a ddarperir a'r gost o sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr wedi eu hyfforddi mewn Cymorth Gyntaf, Hylendid Bwyd, Symud a Chario, Diogelu Oedolion Diamddiffyn, Ymwybyddiaeth Dementia. Darperir cludiant wythnosol o ddrws i ddrws gan Deialu a Theithio ond mae wedi ei ariannu'n llawn gan y gwasanaeth, ynghyd ag offer, deunyddiau, cyfleustodau, bwyd. Trefnir weithgareddau codi arian yn rheolaidd. Mae model o'r fath yn helpu i ddarparu cymorth y mae angen mawr amdano gan y person sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn eu hiaith gyntaf, sef Cymraeg.

Ymyrraeth Gynnar, Atal ac Ail-alluogi.

Mae arnom eisiau i Ddarparwyr ddarparu gwasanaethau sy'n gallu ymdrin â phobl sy'n byw â dementia a'u gofawyr, a'u hystod o anghenion, er enghraifft, pobl â dementia cynnar, anabledau dysgu, namau ar y synhwyrau, anghenion ethnig a diwylliannol. Mae arnom eisiau i Ddarparwyr ystyried defnyddio technolegau symudol digidol a thechnoleg gynorthwyol i helpu pobl sy'n byw â dementia i fyw'n fwy annibynnol (dilyner y ddolen): **AT Dementia**
<http://www.atdementia.org.uk/>

Ledled Gogledd Cymru, mae gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn cefnogi pobl drwy gyfrwng ail-alluogi, annibyniaeth, lles, cynhwysiant cymdeithasol a thechnoleg gynorthwyol i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain yn ddiogel ac yn annibynnol am gyfnod hwy. Mae hyn yn arwain at newid y garfan o bobl sydd angen gofal preswyl neu gartref gofal â nyrsio. Oherwydd y boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio mae pobl yn datblygu anghenion cymhleth megis dementia. Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol wrth ddarparu gwybodaeth a chymorth priodol i'r bobl hynny sy'n byw â dementia a'u gofawyr yn y gymuned.

Mae ar ein Comisiynwyr eisiau cefnogi gwasanaethau sy'n gallu cynnig ymyrraeth gynnar er mwyn atal dirywiad diangen mewn iechyd a allai achosi angen am ragor o ofal. Mae arnom eisiau i'n gwasanaethau yma yng Ngogledd Cymru atal dirywiad iechyd y gellir ei osgoi drwy annog ffyrdd iach o fyw, gan leihau ffactorau risg ar gyfer salwch neu anabledd cyn eu bod yn digwydd. Drwy ganolbwyntio ar ddull comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau gallwn greu amodau cytundebol effeithiol i ganolbwyntio ar ailalluogi. Mae ein Comisiynwyr yn ymrwymedig i ailalluogi yn y gymuned er mwyn helpu i wella annibyniaeth, adferiad a'r heriau y mae'r person yn eu hwynebu drwy gydol y siwrnai dementia yn ôl angen a nodwyd ar gyfer gofal priodol yn y cartref. Daeth yn amlwg bod gwasanaethau ail-alluogi wedi dieithrio pobl sy'n byw â dementia oherwydd natur waethgol y cyflwr. Roedd cred na fyddai pobl sy'n byw â dementia yn elwa o becynnau gofal ailalluogi. Mae consensws cyffredinol a chefnogaeth gynyddol bellach i'r gred y gall pobl sy'n byw â dementia elwa o gael cyfnod o ail-alluogi. **Social Care Institute for Excellence: Maximising the potential of Reablement:** <http://www.scie.org.uk/publications/guides/guide49/dementia.asp>

Mae arnom eisiau i Ddarparwyr alinio eu gwasanaethau ag egwyddorion ymyrraeth, atal ac ail-alluogi cynnar, er mwyn cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofawyr yn y tymor hir. Mae arnom eisiau i Ddarparwyr sy'n cynnig gwasanaethau o'r fath ddangos y manteision i ansawdd bywyd pobl sy'n byw â dementia, eu gofawyr a'r buddiannau cost y bydd y gwasanaeth yn ei gael ar y sectorau cymdeithasol ac iechyd. Mae arnom eisiau i Ddarparwyr feddwl am y dystiolaeth a'r data y maent yn eu casglu er mwyn gallu ateb ein gofynion.

Enghraifft o wasanaeth sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth, atal ac ailalluogi cynnar:

Dementia Go

<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Newyddion/Datganiadau-ir-wasg/Ebrill-2015/Gweithgareddauarbennigargyferpoblsynbyw%c3%a2dementia.aspx>

Yn aml nid oes gan lawer o bobl sy'n byw â dementia a'u gofawyr ar draws y rhanbarth yr hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol neu i ymgysylltu â phobl y tu allan i'w cartref eu hunain. O'r herwydd, mae pryder bod y bobl hynny sy'n byw â dementia a'u gofawyr yn cael eu hynysu, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn rhanbarth Gogledd Cymru, gan eu rhoi mewn perygl o fod â lles emosiynol meddyliol gwael. Enghraifft o hyn yn cael ei amlygu yw rhaglen ymarfer **Dementia Go**. Mae dosbarthiadau hyn wedi bod yn cael eu cynnal yng Nghanolffannau Hamdden Dysynni, Glaslyn ac Arfon yng Ngwynedd. Gall diffyg gweithgarwch corfforol leihau cryfder, cydbwysedd, cyd-symud a stamina, gan wneud gweithgarwch dyddiol yn anos a pheri risg y bydd pobl sy'n byw â dementia yn cael codwm. Mae'r rhaglen integredig hon yn cynnwys y tîm atgyfeirio ymarfer corff, clinigau cof, timau iechyd meddwl, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, meddygfeydd meddygon teulu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Sefydliadau Gwirfoddol, Cynnal Gofawyr a'r Gymdeithas Alzheimer. Mae'r dosbarthiadau gweithgarwch corfforol **Dementia Go** yn cynnwys 1 awr o ymarfer corff ysgafn i wella symudedd, cydbwysedd, cyd-symud a dygnwch i helpu gyda thasgau beunyddiol a lleihau'r risg o gael codwm. Mae hanner awr olaf y dosbarth yn gyfle i gymdeithasu dros banded. Mae sefydliadau eraill megis y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chynnal Gofawyr yn gallu mynychu'r rhan hon o'r sesiwn i gynnig cyngor a chymorth. Mae staff **Dementia Go** wedi dweud bod angen rhagor o amser i allu ymgysylltu ymhellach â budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ac i ymchwilio i'r posibilrwydd o drefnu cludiant i sesiynau ymarfer corff. Mae gwerthuso'r cyfranogwyr sy'n mynychu dosbarthiadau wedi dangos gwelliannau amlwg o ran nerth coesau, nerth cydio ac mae'r holl sylwadau cadarnhaol iawn a gafwyd gan gyfranogwyr yn dangos bod y gwasanaeth yn cynnig 'amser allan' gwerthfawr i'r rheini sy'n byw â dementia ac yn benodol i'w gofawyr. Mae'r gwasanaeth yn un unigryw yn y gymuned ac mae'n helpu pobl i ymdopi â sefyllfa anodd gartref drwy ddod â nhw allan i'r gymuned, a rhoi cyfle iddynt wneud gweithgarwch corfforol gwerthfawr ynghyd â chynnig cefnogaeth emosiynol iddynt. Cyflogir tîm **Dementia Go** drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol drwy Adran Cymunedau Iechyd Cyngor Gwynedd ac maent yn gweithio'n agos gyda gweithwyr clinigol proffesiynol a sefydliadau yn y Sector Gwirfoddol i hyrwyddo dosbarthiadau gweithgarwch corfforol **Dementia Go** fel dewis ar gyfer eu cleientiaid.

Lles a Chomisiynu ar sail Canlyniadau

Llywodraeth Cymru: Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth. 2014-2015. (dogfen weithio).

<http://gov.wales/topics/health/sozialcare/well-being/?skip=1&lang=cy>

Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Deddf) Cymru 2014:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004.we.pdf

New Economics Foundation:
Commissioning for outcomes and co-production: a practical guide for local authorities: <http://www.neweconomics.org/publications/entry/commissioning-for-outcomes-co-production>

Beth mae Allbynnau, Canlyniadau a Dangosyddion yn ei olygu?

Allbynnau:

Crynodeb meintiol o weithgarwch. Mae'n dweud fod gweithgarwch wedi digwydd.

Canlyniadau:
Y newid sy'n digwydd o ganlyniad i weithgarwch. Efallai y bydd rhai prosiectau yn arwain at gadwyni o ganlyniadau cysylltiedig.

Dangosyddion:
Ffyrdd o wybod bod newid wedi digwydd. Gofyn i bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth a oes newid wedi digwydd.

Mae arnom eisiau i Ddarparwyr ddangos sut mae eu gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd a lles pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr, yn ogystal â bodoli canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys arbedion a manteision costau. Bydd y Comisiynwyr yn gofyn:

A all eich gwasanaeth ddiwallu a dangos canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr?

A all eich gwasanaeth ddiwallu a dangos canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, gan gynnwys manteision cost?

Mae Comisiynwyr yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n gallu sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn hytrach na dim ond allbynnau. Mae Comisiynwyr yn holi ac yn ymgynghori â phobl sy'n byw â dementia, eu gofalwyr a'u cymunedau ar draws y rhanbarth ynglŷn â'r hyn y mae arnynt ei angen a'i eisiau gan wasanaeth. Mae canolbwyntio ar Ganlyniadau yn helpu'r Comisiynydd a'r Darparwr i ddatblygu creadigrwydd, arloesedd, personoli, ansawdd, ymrwymiad a mwy am lai mewn perthynas â darpariaeth wasanaeth.

Mae comisiynu ar sail canlyniadau yn helpu pobl a'u cymunedau i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u gwasanaethau lleol, o sut y maent yn cymharu â gwasanaethau eraill ac o lefel yr ansawdd y gallant ddisgwyl ei gael.

Wrth gomisiynu a llunio gwasanaeth mae angen i'r Comisiynydd a'r Darparwr feddwl ynglŷn â sut y bydd y gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar helpu i gael effaith gadarnhaol ar les y person sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Mae lles yn gysyniad ehangach nag iechyd corfforol neu feddyliol. Mae'n ymwneud â pha brofiad mae pobl yn ei gael o'u bywydau. Dylanwadir yn drwm arno gan amgylchiadau materol a seico-gymdeithasol ac mae elfennau personol a chymdeithasol iddo. Mae lles yn troi o amgylch gallu person i weithredu'n dda a theimlo'n dda drwy fod â chyflwr meddwl cadarnhaol, teimlo'n ddiogel, bod â synnwyr o gysylltiad a gwydnwch sef gallu pobl i wynebu ac ymdopi â heriau bywyd er mwyn cynnal lles cadarnhaol. Bydd datblygu a gwella dull partneriaethol o weithio â phob sector a gwneud Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr yn bartneriaid allweddol gweithredol yn gwella canlyniadau ac yn lleihau costau cyflenwi gwasanaeth (dilyner y ddolen): Y Triongl Gofal <https://professionals.carers.org/working-mental-health-carers/triangle-care-mental-health>

Gwerth Ychwanegol

Gall amser, creadigrwydd ac ynni pobl mewn rhai achosion fod yn fwy gwerthfawr nag arian. Mae angen i Ddarparwyr gysylltu â grwpiau, cyfleusterau a gwirfoddolwyr cymunedol presennol i ychwanegu gwerth at eu gwasanaeth.

Mae canolbwyntio ar gynnal pobl â dementia i fyw'n annibynnol yn mynd 'law yn llaw' â chymorth i ofalwyr. Mae twf yn nifer y bobl â dementia ar draws rhanbarth Gogledd Cymru yn awgrymu cynnydd yn nifer y gofalwyr y bydd eu hangen yn y dyfodol. Mae'r Sector Gwirfoddol yn ganolog i ychwanegu at y ddarpariaeth statudol bresennol ac felly drwy weithio ar y cyd mewn partneriaeth â'r sector statudol yn lleol gall fod o gymorth o ran effeithlonrwydd cost y gwasanaeth.

Er mwyn gallu ateb yr angen am ymyrraeth gynnar ac am wasanaethau ataliol ac ail-alluogi ar draws y rhanbarth, sy'n helpu i roi cymorth i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr, mae angen canolbwyntio ar fuddsoddiad sefydliadau'r Sector Gwirfoddol a Grwpiau Cymunedol.

Yn rhanbarth Gogledd Cymru mae sefydliadau yn y Sector Gwirfoddol a Grwpiau Cymunedol yn darparu lluo o wasanaethau cymunedol sy'n darparu cymorth i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2013) yn amcangyfrif bod 33,000 o sefydliadau Sector Gwirfoddol yn gweithio yng Nghymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymunedol hanfodol, gan gynnwys 11% sy'n darparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol. Gall y sefydliadau hyn fod yn gweithredu ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol. Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer sefydliadau'r Sector Gwirfoddol sydd yn weithgar ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru dros 19,000, er ei bod yn anodd amcangyfrif faint yn union o'r sefydliadau hyn sy'n cefnogi pobl â dementia, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae gan y Gymdeithas Alzheimer bresenoldeb ym mhob un o'r 6 sir yng Ngogledd Cymru.

Yn y cyfnod hwn o ansicrwydd ariannol, mae Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio unrhyw gyllid ar wasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol a'r blaenoriaethau a amlinellir gan yr Awdurdodau Lleol, ond, yn y gorffennol, efallai na fyddai hyn wedi bod yn wir. Cyfathrebir y blaenoriaethau hyn gyda sefydliadau'r Sector Gwirfoddol a Grwpiau Cymunedol er mwyn helpu i lunio a chynllunio gwasanaethau. Fodd bynnag, os yw Awdurdodau Lleol yn cyfeirio neu'n atgyfeirio i sefydliadau yn y Sector Gwirfoddol ac i Grwpiau Cymunedol mae angen ystyriaeth wrth benderfynu ymhle mae'r atebolrwydd. Mae angen i hyn gael ei gydbwysu â dewis personol.

Mae canfod partneriaid addas (naill ai rhai gwirfoddol neu gymunedol) i'n cefnogi o ran cynaliadwyedd tymor hir rhoi cymorth i'r bobl hynny sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn her fawr. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r enghreifftiau o ymarfer gweithredol yn y gymuned y gall grwpiau cymunedol sydd wedi eu harwain yn wirfoddol ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n cefnogi Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Iechyd i ateb y galw mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol, ac yn wir eu bod yn gwneud hynny.

Enghraifft o wasanaeth sy'n ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth statudol bresennol:

Grŵp sy'n cael ei redeg yn gymunedol yw **Clwb y Berwyn** <http://canolfan-ni.org/clwb-y-berwyn/> sy'n darparu cyfle i bobl hyn a'u gofalwyr gyfarfod a chael te a gwneud gweithgareddau. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob pythefnos yn Canolfan Ni yng Nghorwen. Mae 50 o aelodau i gyd, ac fel arfer mae 35-40 o bobl yn bresennol ym mhob cyfarfod gydag ystod oedran o 60 i 96. Mae'r clwb yn wybyddus i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol ac maent yn cyfeirio pobl a allai elwa o fynd i'r clwb. Mae Clwb y Berwyn yn chwarae rhan bwysig iawn wrth atal pobl hyn sy'n byw yn ein cymunedau rhag cael eu hynysu'n gymdeithasol drwy ddarparu cyfleoedd i fod yn rhan o'r rhwydwaith cymunedol. Cefnogir y clwb gan 10-11 o wirfoddolwyr o'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol sydd hefyd yn darparu'r lluniaeth. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys siaradwyr gwadd, cwisiau a bingo, sesiynau ymarferion cadair misol, tripiâu a seibiannau byr. Mae'r Aelodau'n talu £2.00 y sesiwn sy'n cynnwys te a thocyn raffl ac mae'r clwb yn hunangynhaliol. Mae cludiant ar gael drwy Bws Ni – Cynllun Cludiant Cymunedol Lleol.

Darparu Gwasanaethau ar y Cyd rhwng Iechyd, Gofal Sylfaenol, Gofal Cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol.

I'r rhai sy'n amau bod ganddynt ddementia neu i deuluoedd sy'n cyrraedd sefyllfa argyfyngus yn ddisymwth wrth i ddementia waethgu, y cyswllt cyntaf yn ddieithriad fydd y meddyg teulu ac, os yw'n anodd byw gyda dementia, mae'r un mor anodd ei reoli o fewn gofal sylfaenol. Mae arnom eisiau i Ddarparwyr ddarparu gwasanaeth cyfannol sy'n canolbwyntio ar anghenion y person sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Mae arnom eisiau i Ddarparwyr symud oddi wrth wasanaeth un dimensiwn. Bydd angen i ddarparwyr weithio gyda'i gilydd, gan rannu dysgu a chydweithio'n greadigol ac yn arloesol er mwyn sicrhau'r canlyniadau wrth weithio ar y cyd mewn partneriaeth â phob sector.

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ein Cynllun Ar Gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol I Gymru Hyd At Fis Mawrth 2018* <http://gov.wales/docs/dhss/publications/141106carecy.pdf> Mae'r cynllun hwn yn tynnu sylw at yr angen i bobl dderbyn y rhan fwyaf o gyngor, diagnosis, triniaeth a gofal mewn ffordd hyblyg, mewn cyfleusterau hyblyg sydd wedi eu darparu gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn agos at eu cartref (t.13).

Mewn ymateb i **alw cynyddol** ac **adnoddau cyfyngedig**, mae angen i'r Darparwr ystyried:

- Gwasanaethau cydweithredol rhwng iechyd – Gofal Sylfaenol, Gofal Cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol i roi i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr y cyfle gorau i aros allan o ofal preswyl, ysbytai a chynnal eu hannibyniaeth yn y cartref.
- Adeiladu ar y cyd ddarpariaeth iechyd leol gydweithredol – Gofal Sylfaenol, Gofal Cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol drwy rwydweithiau meddygon teulu yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau asesu a rheoli gofal a chefnogaeth gymunedol (yn ymatebol ac yn seiliedig yn y gymuned).
- Gweithio mewn partneriaeth er mwyn amlygu manteision diagnosis cynnar, sef:
 1. Bod o gymorth o ran ansicrwydd.
 2. Cael mynediad at driniaeth.
 3. Cael mynediad at wasanaethau cymorth priodol ac amserol.
- (Dilynwch y ddolen i gael rhagor o wybodaeth: **Benefits of an early diagnosis of Dementia**. [Ar-lein]. Ar gael yn NHS Choices <http://www.nhs.uk/Conditions/dementia-guide/Pages/dementia-early-diagnosis-benefits.aspx> [Cyrchwyd ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

Mae tystiolaeth o Ogledd Cymru yn awgrymu bod mwyafrif llethol y rheini sy'n cael eu hasesu eisiau gwybod os oes ganddynt ddementia. Mae ymchwil wedi dynodi rhai o'r pethau sy'n peri rhwystr rhag rhoi gofal sylfaenol effeithiol i bobl â dementia. Mae'r rhain yn cynnwys: gweithwyr proffesiynol yn ddigon syml ddim yn deall pwysigrwydd rhoi diagnosis o'r cyflwr neu'r angen am gefnogaeth barhaus yn ogystal â diffyg wybodaeth ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr ynglŷn â'r cyflwr ac unrhyw wasanaethau a allai fod ar gael (Cymdeithas Alzheimer, 2014). Drwy ddull cydweithredol, bydd pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn gallu derbyn gwybodaeth amserol a phriodol a chymorth i'w helpu i fyw bywyd ystyrlon yng nghanol eu cymuned eu hunain.

Er y gall fod oedi mewn rhai ardaloedd mae'n hollbwysig bod pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn cael eu hatgyfeirio i'r llwybr priodol ac yn derbyn gwybodaeth a chymorth amserol a phriodol.

Enghraifft o wasanaeth sy'n gweithio ar y cyd â phob sector

Canolfan Gwybodaeth Gofal Dementia RED (Parch Empathi Urddas):

http://www.alzheimers.org.uk/site/scripts/recruit_details.php?id=9007 Mae gwasanaeth Dementia RED yn gweithio ar y cyd gydag Iechyd – Gofal Sylfaenol, Gofal Cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol er mwyn cynnig, heb unrhyw gost uniongyrchol, gyfle i bob practis meddyg teulu sy'n dymuno hynny gael Canolfan Gwybodaeth Gofal Dementia RED ar gael yn eu practis ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. **Manteision gwasanaeth Dementia RED yw ei fod yn helpu i:** Gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o broblemau gwybyddol/dementia ac o rôl gofalwyr ac o'r effaith y gall byw gyda phroblemau gwybyddol / dementia ei gael ar unigolion. Hyrwyddo ymwneud gweithredol â chefnogi a chynnwys pobl sy'n byw gyda phroblemau gwybyddol / dementia a'u gofalwyr mewn gweithgareddau a mentrau cymunedol; Datblygu gwybodaeth a'r gallu i gynnal cefnogaeth ar gyfer pobl sy'n byw â phroblemau gwybyddol / dementia a'u gofalwyr yn y tymor hir; Cynyddu ymwybyddiaeth yn y timau gofal sylfaenol i helpu i wella cofnodi ar gofrestri meddygon teulu.

Crynodeb:

Dyma'r hyn y mae arnom ei **Eisiau** a'i **Angen** ar gyfer pobl sy'n byw â Dementia a'u Gofalwyr yng Ngogledd Cymru

Personoli:

Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd yn rhoi pwys ar Barch, Empathi ac Urddas.

Cynnig Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg i alluogi pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr i gael mynediad at y gwasanaeth y mae arnynt ei angen yn yr iaith o'u dewis drwy gydol siwrnai dementia.

Ymyrraeth, Atal ac Ailalluogi yn Gynnar er mwyn darparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr, er enghraifft, dementia cynnar, anabledau dysgu, namau ar y synhwyrau, anghenion ethnig a diwylliannol.

Lles a Chomisiynu ar Sail Canlyniadau Mae angen i ddarparwyr ddangos sut mae eu gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd a lles pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn ogystal â bodoli canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys arbedion a buddion costau.

Ychwanegu Gwerth drwy gysylltu â grwpiau, cyfleusterau a gwirfoddolwyr cymunedol presennol i ychwanegu gwerth at y gwasanaeth.

Darpariaeth gwasanaethau ar y cyd rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol i ddarparu gwasanaeth cyfannol sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolion sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Symud oddi wrth wasanaeth un dimensiwn. Meddwl yn greadigol ynghylch gweithio ar y cyd.

Ffynonellau Cyfeirio Pellach

Alzheimer's Disease International. 2013. The Global Impact of Dementia 2013-2050, Llundain. [Ar-lein]. Ar gael yn www.alz.co.uk [Cyrchwyd Ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

Cymdeithas Alzheimer. 2013. Welsh dementia diagnosis rate stalls, 29 Tachwedd 2013. [Ar-lein]. Ar gael yn www.Alzheimer's.org.uk/site/scripts/news [Cyrchwyd Ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

Cymdeithas Alzheimer. 2013a. Estimated numbers of people with dementia in local authority areas in Wales, [Ar-lein]. Ar gael yn www.Alzheimer's.org.uk/site/scripts/download.php?fileID=1055 [Cyrchwyd Ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

[Chalk A. & Page, S. 2014.](#) *Dementia RED (Respect Empathy Dignity): collaborating to build dementia supportive communities in North Wales – reporting on a pilot project (innovative practice)*. [Ar-lein]. Ar gael yn: SAGE Publication Link: <http://dem.sagepub.com/cgi/reprint/1471301214563203v1.pdf?ijkey=3OD99AH7F7gKFnM&keytype=finite> [Cyrchwyd Ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

Dementia RED: Gwefan Cymdeithas Alzheimer. 2014. [Ar-lein]. Ar gael yn http://www.alzheimers.org.uk/site/scripts/recruit_details.php?id=9007 [Cyrchwyd Ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

Sefydliad Materion Cymreig. 2010. Population, Factfile 3, [Ar-lein]. Ar gael yn www.clickonwales.org [Cyrchwyd Ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2011. Data'r Cyfrifiad, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Ar-lein]. Ar gael yn www.ons.gov.uk [Cyrchwyd Ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2013. A snapshot of health in North Wales. [Ar-lein]. Ar gael yn www.wales.nhs.uk/cym [Cyrchwyd Ddiwethaf 08 / 06 / 2015].

Spencer, E & Probyn, J. 2014. Models of Positive Practice to Support People with Dementia and their Carers in Wales with a primary focus on North Wales. SpencerProbyn Research Writers. Executive Summary. [Ar-lein]. Ar gael ar wefan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol: http://www.ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=8266&langSwitch=cym [Cyrchwyd Ddiwethaf 23 / 07 / 2015].

The North Wales Outcome Based Service Specification for Care Homes to provide Enriched Care for Service Users Living with Dementia (Including Care Home with Nursing). Dogfen ategol i Gytundeb Cyn-Lleoli Gogledd Cymru 2015-2018.

Wyn Roberts, B. 2014. *Strategy for Elderly Mental Health Services in Denbighshire*. Cyngor Sir Ddinbych.

Cysylltiadau:

Comisiynu Ynys Môn: 01248 752802 / 01248 752733

Comisiynu Gwynedd: 01286 679577 / 01766 771000

Comisiynu Conwy: 01492 577741 / 01492 574000

Comisiynu Sir Ddinbych: 01824 706558 / 01824 706101

Comisiynu Sir y Fflint: 01352 701448 / 01244 532430

Comisiynu Wrecsam: 01978 298619 / 01978 292000